# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
# Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025

`

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Ian Rees | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Anne Beegan | Aelod-gyflogedig etholedig |
| Bethan Jones | Aelod anweithredol |
| Chris Bolton | Aelod-gyflogedig etholedig |
| David Francis | Aelod anweithredol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Michael Norman | Aelod anweithredol |
| Richard Thurston | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Darren Griffiths | Aelod-gyflogai penodedig |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Archwilio |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith |
| Kevin Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 4 a 5, 16 i 18) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitemau 4 a 6) |
| Shelley Evans | Arweinydd Cyllid (eitemau 4 a 6) |
| Laurie Davies | Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitem 8) |
| Terry Jones | Rheolwr Archwilio Cyflawni Ansawdd ac Archwilio Strategol Tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio |
| Tom Haslam | Rheolwr Archwilio Perfformiad Tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio (eitem 11) |
| Aneesa Ali | Arweinydd Archwilio, Tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio (eitem 11) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1 | Croeso ac ymddiheuriadau |
| 2 | Datganiadau o fuddiannau |
| 3 | Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol |
| 4 | Adroddiad Perfformiad Integredig |
| 5 | Adroddiad a Chynllunio Bioamrywiaeth |
| 6 | Cynllun Ffioedd 2026-27 |
| 7 | Y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol: Adroddiad o gyfarfod 03 Tachwedd 2025 |
| 8 | Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles |
| 9 | Swyddog Diogelu Data - Dynodi |
| 10 | Adroddiad y Cadeirydd |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 11 | Adroddiad Ansawdd 2024-25 |
| 12 | Adolygiad o gofnodion y cyfarfod: 24 a 25 Medi 2025 |
| 13 | Adolygiad o dracio camau gweithredu |
| 14 | Adolygiad o'r flaenraglen waith |
| 15 | Unrhyw fusnes arall |
| 16 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| 17 | Cynllun Blynyddol 2026-27 |
| 18 | Arolwg Staff 2025 |
| 19 | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 20 | Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:<br>Datblygu’r Bwrdd a’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, 17 a 18 Rhagfyr 2025, Abertawe<br>Cyfarfod y Bwrdd, 05 Chwefror 2026, Cyffordd Llandudno |

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1** | **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Nododd ymddiheuriad gan Darren Griffiths. | |
| **2** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 2.1 | Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | |
| **3** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |
| 3.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei wybodaeth ddiweddaraf ac eglurodd ei fod yn ymaros adroddiad ffurfiol gan y Pwyllgor Cyllid ar ôl iddo graffu ar yr Adroddiad Interim a'r Amcangyfrif Drafft. Eglurodd ei fod hefyd wedi rhoi tystiolaeth fel rhan o broses graffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. | |
| 3.2 | Trafododd y Bwrdd:<br>• adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar y GIG a oedd yn tynnu sylw at faterion ariannol a chydymffurfiaeth, gan nodi bod natur rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn golygu nad oedd ganddo rôl yn ysgogi newid ond ei fod yn bwriadu atgyfnerthu'r negeseuon yn ei adroddiadau cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys drwy ei negeseuon etifeddol.<br>• y cynnydd mewn gohebiaeth a chwythu'r chwiban a'r pwysau canlyniadol ar adnoddau, gan nodi nad oedd un thema yn dod i'r amlwg o'r materion a gafodd eu codi a allai fod yn symptomatig o rwystredigaeth ehangach mewn systemau cyhoeddus. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | • y cais am gymeradwyaeth gan y Bwrdd, mewn egwyddor, ar gyfer gwariant ychwanegol gydag Accenture petai angen cymorth ychwanegol arnom oherwydd digwyddiad seiber a fyddai'n cymryd gwariant dros y trothwy dirprwyo’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Eglurodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y byddai Cadeirydd y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn gynnar ond byddai cymeradwyaeth o'r fath yn galluogi cymryd camau cyflym. Gofynnodd y Bwrdd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith ddarparu eglurder ar y broses, y rheolaethau a'r terfynau gwerth ar gyfer sefyllfa o'r fath er mwyn darparu cydbwysedd addas rhwng hyblygrwydd a rheolaeth.<br>• effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol y tu allan i'r swyddfa yng Nghaerdydd ac a fyddai’n bosibl cymryd unrhyw gamau pellach, gan nodi bod staff wedi codi pryderon gyda'r Gwasanaethau Busnes a oedd yn parhau i gysylltu â'r heddlu a'r landlordiaid ac wedi cyhoeddi canllawiau i staff. | Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith |
| 3.3 | Amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol y broses a'r amserlen ar gyfer cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru a'r goblygiadau i Archwilio Cymru pe bai'r gymeradwyaeth yn cael ei gohirio neu nad yw’n cael ei derbyn. Rhoddodd sicrwydd i’r Bwrdd bod:<br>• y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystyried camau lliniarol y gellid eu gweithredu pe na bai cyllid Cronfa Gyfunol Cymru Archwilio Cymru yn cael ei dderbyn yn llawn;<br>• cyfran sylweddol o incwm Archwilio Cymru yn deillio o ffioedd sy'n cael eu codi am waith statudol ac, gyda'r amddiffyniad sydd wedi’i roi i annibyniaeth ei swydd, bod ganddo rywfaint o gyfle i ystyried ffocws ei raglen a llif rhywfaint o'i waith.<br>Soniodd yr Archwilydd Cyffredinol yn fyr am effaith bosibl newidiadau mewn Yswiriant Gwladol neu dreth o ganlyniad i gyllideb llywodraeth y DU, a allai fod angen Amcangyfrif Atodol. | |
| 3.4 | Y Bwrdd:<br>• gwnaethant gymeradwy gwariant gydag Accenture dros drothwy dirprwyo’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn achos digwyddiad seiber mawr a oedd angen cymorth ychwanegol <u>yn amodol ar</u> y Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith yn darparu eglurder ar y broses, rheolaethau a therfynau gwerth; a<br>• fel arall nododd y diweddariad. | |
| **4** | **Adroddiad Perfformiad Integredig** | |
| 4.1 | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith bapur, gyda chefnogaeth yr Adran Moderneiddio ac Effaith, a ddarparodd yr adroddiad perfformiad integredig chwarter dau. Esboniodd y newidiadau sydd wedi’u gwneud i fformat yr adroddiad ac amlygodd y canlynol: | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

<table>
<tr><th>Eitem</th><th>Cofnodion</th><th>Camau Gweithredu</th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li>bod meysydd sy'n mynd yn dda, gan gynnwys cyflwyno archwiliadau cyfrifon y GIG a'r llywodraeth ganolog, gostyngiad mewn cyfraddau Absenoldeb Salwch (Dangosydd Perfformiad Allweddol 14) a chyflawni blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2024-25 yn gyffredinol;</li><li>materion sy'n peri pryder, gan gynnwys:<ul><li>cyflawni archwiliadau cyfrifon Llywodraeth Leol;</li><li>cyflawni gwaith archwilio perfformiad lleol y GIG; a</li><li>chyflawni gostyngiadau wedi'u targedu mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (Dangosydd Perfformiad Allweddol 17); a'r</li></ul></li><li>meysydd ffocws ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, gan gynnwys<ul><li>rheoli'r sefyllfa ariannol (Dangosydd Perfformiad Allweddol 15) ac ystyried cyfleoedd buddsoddi yn seiliedig ar y gwarged a ragwelir ar hyn o bryd; ac</li><li>ystyried effaith cyfraddau isel o drosiant gwirfoddol (Dangosydd Perfformiad Allweddol 13), a Dangosydd Perfformiad Allweddol priodol ar gyfer y cynllun blynyddol nesaf.</li></ul></li></ul></td><td></td></tr>
<tr><td>4.2</td><td>Y Bwrdd:<ul><li>gofynnodd a fyddai'r Dangosfwrdd Rheoli Perfformiad Archwiliad Perfformiad (PAPM) yn cefnogi cyflawni gwaith perfformiad y GIG, gan nodi bod hyn yn darparu fframwaith monitro ond yn annhebygol o gefnogi'r cyflawniad yn uniongyrchol;</li><li>trafododd yr arbedion costau staff yn yr adroddiad ariannol blwyddyn hyd yma, gan nodi bod yr arbedion a adroddwyd yn cynnwys swyddi gwag dan hyfforddiant nad oeddent wedi'u cynnwys yn y ffigurau trosiant gwirfoddol, ac efallai y byddai'n briodol ailystyried geiriad y Dangosydd Perfformiad Allweddol;</li><li>trafododd hyblygrwydd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i wneud trosglwyddiadau cyllidebol i ganiatáu defnyddio'r gwarged a ragwelir, gan nodi bod manylion gosod y gyllideb wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'u cynnal yn unol â'r Llawlyfr Rheoli Ariannol;</li><li>gofynnodd am sicrwydd y byddai unrhyw warged yn cael ei ddyrannu i gyflawni'r canlyniad mwyaf ffafriol i'r sefydliad, gan nodi bod y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn fodlon bod amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr sy'n cynnig gwerth am arian wedi'u nodi ac ei fod wedi ystyried ac y byddai'n parhau i adolygu, meysydd fel gwaith perfformiad lleol y GIG (roedd cyllideb contractwr ar gael i gefnogi darparu ochr yn ochr â'r staff sydd ar gael) a'r modiwl rheoli perfformiad iTrent (system sy'n arwain y farchnad a byddai gwella ymgysylltu yn canolbwyntio ar addysgu/ymgyfarwyddo defnyddwyr.</li></ul></td><td></td></tr>
</table>

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 4.3 | Nododd y Bwrdd, lle cyfeiriwyd at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu hadolygu gan yr y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, roedd hyn fel rhan o broses datblygu'r Cynllun Blynyddol a byddai'r rhain yn mynd yn ôl i'r Bwrdd i'w hadolygu, ac yn dilyn hynny eu cymeradwyo, fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Blynyddol. | |
| 4.4 | Nododd y Bwrdd mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf y Bwrdd y byddai'r Pennaeth Cyllid presennol, Nicola Evans, yn ei fynychu a diolchodd iddi am ei chyfraniad sylweddol i waith Archwilio Cymru. Gwnaeth y Bwrdd longyfarch Shelley Evans ar gael ei phenodi'n Bennaeth Cyllid. | |
| 4.5 | Fel arall, nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **5** | **Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth** | |
| 5.1 | Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth a gafodd ei ddatblygu i fodloni dyletswyddau ar y cyd rhwng SAC ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Esboniodd yr egwyddorion sy'n sail i'r cynllun a'r broses ar gyfer ei ddatblygu. | |
| 5.2 | Roedd y Bwrdd yn falch o weld y camau cadarnhaol a gymerwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i leihau carbon yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad, a gofynnodd a oedd naratif y Cynllun yn ddigon eglur wrth ddisgrifio sut y byddai gostyngiadau carbon pellach yn cael eu cyflawni. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol fod gostyngiadau sylweddol wedi'u gwneud trwy adleoli swyddfeydd a byddai dadansoddiad arall yn cael ei gynnal ar lefel fwy manwl i nodi cyfleoedd eraill ar gyfer gostyngiad. Fodd bynnag, roedd tensiwn yn parhau rhwng yr angen am deithio ar gyfer busnes i sicrhau ansawdd archwilio a manteision lleihau carbon o leihau teithio a byddai'r Tim Arweinyddiaeth Gweithredol yn adolygu'r Dangosydd Perfformiad Allweddol perthnasol i'w ystyried gan y Bwrdd yng ngoleuni hyn. Ystyriodd y Bwrdd, yn fyr, fanteision posibl gwrthbwyso, gan gynnwys hawliadau posibl o ran gwaith gwirfoddol, cymunedol neu elusennol. | |
| 5.3 | Roedd y Bwrdd yn falch bod yr adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad yn gadarnhaol ac awgrymodd ei fod yn cael ei ddefnyddio'n fewnol i hyrwyddo mentrau fel y Cynllun Teithio Cynaliadwy. | |
| 5.4 | Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod wedi cymeradwyo'r Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer 2023-2025 a'r Cynllun ar gyfer 2026-2028, gan nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi cadarnhau ei gymeradwyaeth. | |
| **6** | **Cynllun Ffioedd 2026-27** | |
| 6.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd o'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2026-27 fel sydd wedi'i atodi i'r Amcangyfrif drafft a gafodd ei gymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd. Eglurodd ei bod yn ymaros canlyniad craffu'r Pwyllgor Cyllid ar yr | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif, ond roedd disgwyl i'r Cynllun Ffioedd gael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghanol mis Ionawr 2026. | |
| 6.2 | Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau i nodi a oeddent yn fodlon cymeradwyo'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2025-26, a nododd bod Chris Bolton yn datgan ei fod yn anghytuno. | |
| 6.3 | Gofynnodd Chris e fod yn cael ei gofnodi ei fod yn anghytuno, ac esboniodd ei resymau, gan gynnwys:<br>• effaith y cynnydd mewn ffioedd ar gyrff archwiliedig a oedd yn wynebu cyfyngiadau ariannol sylweddol;<br>• yr effaith ar staff Archwilio Cymru wrth wynebu sgyrsiau a allai fod yn anodd a heriol wrth gyfiawnhau lefel y cynnydd mewn ffioedd; ac<br>• i gadw'r mater hwn ar flaen ymwybyddiaeth gyfunol y Bwrdd i lywio trafodaethau yn y dyfodol ar y cynllun ariannol tymor canolig a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad.<br>Pwysleisiodd Chris nad bwriad y ffaith ei fod yn anghytuno oedd tarfu, fe wnaeth gydnabod yr esboniadau a fyddai'n cael eu nodi mewn llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at gyrff archwilio ac y byddai'n rhwym gan benderfyniad ar y cyd y Bwrdd. | |
| 6.4 | Trafododd y Bwrdd yn fyr:<br>• pwysigrwydd ystyried ffioedd dros yn y tymor hwy fel rhan o'i ystyriaeth o gynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor;<br>• y gwerth y mae Archwilio Cymru yn ei ddarparu, yng nghyd-destun y ffioedd sy'n daladwy am archwilio cyhoeddus, er enghraifft, yn Lloegr; a'r<br>• esboniadau sydd wedi'u rhoi yn y llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at gyrff archwiliedig. | |
| 6.5 | Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau i bleidleisio ar y Cynllun Ffioedd ar gyfer 2026-27 ac, ar sail mwyafrif yr aelodau a oedd yn bresennol yn pleidleisio o blaid cymeradwyo'r Cynllun Ffioedd (saith aelod o blaid, un yn erbyn, un yn absennol), cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Ffioedd ar gyfer 2026-27 i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid. | |
| **7** | **Y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol: Adroddiad o gyfarfod 03 Tachwedd 2025** | |
| (a) materion nad ydynt yn ymwneud â chyflog | | |
| 7.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd ac amlygodd y canlynol:<br>• ymgysylltiad cryf staff a rheolwyr llinell â'r modiwl iTrent ar gyfer cyfarfodydd rheoli perfformiad 1-2-1, gyda'r cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol yn sicrhau'r Bwrdd y | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | byddai'r Tim Arweinyddiaeth Gweithredol yn parhau i fonitro'r defnydd ac yn cymryd camau wedi'u targedu lle bo hynny'n briodol;<br>• bod y Pwyllgor wedi cael diweddariad ystyriaeth fanwl Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol o risgiau sy'n gysylltiedig â chynllunio'r gweithlu strategol;<br>• effaith a gwerth gwaith a gweithgareddau'r Grŵp Llesiant ar forâl staff a’r diwylliant sefydliadol; a<br>• bod y Pwyllgor yn fodlon argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Polisi Hunaniaeth o ran Rhywedd a Thrawsnewid wedi'i ddiweddaru a oedd yn darparu eglurder ac yn atgyfnerthu gwerthoedd diwylliannol y sefydliad. | |
| 7.2 | Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Hunaniaeth o ran Rhywedd a Thrawsnewid ac fel arall nododd y diweddariad. | |
| (b) strategaeth cyflog 2026-27 | | |
| 7.3 | Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor, er bod hawliad cyflog wedi'i gael gan un o'r undebau llafur, argymhellodd y Pwyllgor ohirio ystyried y strategaeth cyflog ar gyfer 2026-27 ymhellach nes bod mwy o eglurder ar ganlyniad craffu gan y Pwyllgor Cyllid ar yr Amcangyfrif, cymeradwyaeth cynnig cyllideb Llywodraeth Cymru a darparu cyllideb Llywodraeth y DU. | |
| 7.4 | Nododd y Bwrdd y diweddariad a chadarnhaodd ei gefnogaeth o ran oedi rhag ystyried y dyfarniad cyflog a pharamedrau negodi ymhellach. | |
| **8** | **Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles** | |
| 8.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes bapur yn amlinellu'r newidiadau sydd wedi’u gwneud i ddiweddaru'r Polisi Iechyd a Diogelwch a chynnwys materion sy'n ymwneud â lles er mwyn creu Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles cyfunol. | |
| 8.2 | Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles, gan nodi y byddai'n cael ei adolygu ar gylch pedair blynedd. | |
| **9** | **Swyddog Diogelu Data - Dynodi** | |
| 9.1 | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol bapur yn cynnig dynodi Kathleen Job fel Swyddog Diogelu Data (DPO). Esboniodd fod<br>• trefniadau interim wedi'u gwneud i gynnwys seibiant gyrfa o flwyddyn yn ystod y cyfnod hwnnw roedd Kathleen wedi ennill profiad fel Dirprwy Swyddog Diogelu Data ac wedi ennill Tystysgrif Ymarferydd Y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG (BCS);<br>• gwnaeth y Swyddog Diogelu Data blaenorol nodi na fyddai'n dychwelyd i'r sefydliad; ac<br>• roedd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd ar gael i ddarparu cydnerthedd. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 9.2 | Mewn ymateb i gwestiwn ar Dystysgrif Ymarferydd BCS, esboniodd Ysgrifennydd y Bwrdd (sydd hefyd yn ddeiliad y Dystysgrif Ymarferydd) nad achrediad blynyddol oedd hwn, roedd y cymhwyster yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd i ystyried newidiadau yn y gyfraith ac roedd disgwyl i ddeiliaid tystysgrifau gynnal eu gwybodaeth trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. | |
| 9.3 | Cymeradwyodd y Bwrdd ddynodi Kathleen Job fel Swyddog Diogelu Data ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a nododd fod yr Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi dynodi Kathleen Job yn Y Dirprwy Lywydd ar gyfer swydd yr Archwilydd Cyffredinol. | |
| **10** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| 10.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu ei weithgarwch ers y cyfarfod diwethaf. Esboniodd y Cadeirydd ei fod yn adolygu diben ei gyfarfodydd ag aelodau cyn ac ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd a'r trefniadau ar eu cyfer, er mwyn sicrhau eu gwerth i waith y Bwrdd ac Archwilio Cymru. | |
| 10.2 | Nododd y Bwrdd y diweddariad. | |
| **11** | **Adroddiad Ansawdd 2024-25** | |
| 11.1 | Cyflwynodd Rheolwr Archwilio Datblygu a Chanllawiau Archwilio Ansawdd a Chyflawni Archwilio Strategol yr Adroddiad Ansawdd Archwilio blynyddol, gan amlygu nad oedd hyn yn ofyniad llym ar Archwilio Cymru, ond ei fod yn deillio o'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Dryloywder ac yn dangos ymrwymiad i, a thryloywder ynghylch ansawdd archwilio. | |
| 11.2 | Nododd y Bwrdd fod yr adroddiad yn nodi nad oedd yr archwiliad a aseswyd gan QAD bod 'angen gwelliannau' yn cael ei ystyried yn gynrychioladol, ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cefnogi'r honiad hwnnw gydag esboniad sy'n cyfeirio at y model tair llinell amddiffyn. Awgrymodd y Bwrdd hefyd y gallai dyfyniadau gan gyrff archwiliedig wella'r adroddiad ymhellach trwy gynnig persbectif gwahanol. | |
| 11.3 | Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y cynnydd sylweddol sydd wedi’i gyflawni o ran datblygu ac ymwreiddio trefniadau ansawdd yn strwythurol ac yn ddiwylliannol yn Archwilio Cymru drwy gynyddu adnoddau, sefydlu Pwyllgor Ansawdd, defnyddio adolygwyr annibynnol ac adrodd yn dryloyw. | |
| 11.4 | Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a’i nodi, a wnaeth adlewyrchu'r camau a gymerwyd o ran argymhellion a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn flaenorol yn ogystal ag ymrwymiad Archwilio Cymru i ansawdd archwilio. | |
| **12** | **Adolygiad o gofnodion y cyfarfod: 24 a 25 Medi 2025** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 12.1 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 24 a 25 Medi 2025 fel cofnod cywir. | |
| **13** | **Adolygiad o’r traciwr camau gweithredu** | |
| 13.1 | Nododd y Bwrdd y diweddariadau yn erbyn camau gweithredu ar y traciwr, ac ymestynnodd y dyddiad cwblhau targed ar gyfer camau gweithredu WAOB/25/016 (Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) tan fis Ionawr 2026. | |
| **14** | **Adolygiad o'r blaenraglen waith** | |
| 14.1 | Trafododd y Bwrdd y rhaglen waith flaengar y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei diweddaru. Nododd y Bwrdd fod cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth yn cyd-fynd yn rhannol â chyfarfod o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyhoeddus y Senedd y byddai'r Archwilydd Cyffredinol fel arfer yn ei fynychu. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn holi aelodau i weld pwy fyddai ar gael ar gyfer cyfarfod undydd ar 18 Mawrth. | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **15** | **Unrhyw fater arall** | |
| 15.1 | Nid oedd unrhyw fater arall. | |
| **16** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | |
| 16.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd bapur yn gwahodd y Bwrdd i ystyried a chymeradwyo ymgynghoriad rhanddeiliaid drafft ar amcanion cydraddoldeb arfaethedig (a'r camau i'w cymryd o dan bob amcan) ar gyfer y cyfnod 2026-2030. Eglurodd y canlynol :<br>• bob pedair blynedd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a SAC yn paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd sy'n nodi’u hamcanion a'u camau allweddol i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb cyfreithiol;<br>• wrth ddatblygu'r amcanion arfaethedig, roedd ef wedi ymgysylltu â PAWB (Grŵp Buddiant Cydraddoldeb Archwilio Cymru) a byddai'n gwneud hynny eto o ran ymatebion i'r ymgynghoriad; roedd hefyd wedi ymgysylltu â chydweithwyr Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ran canfyddiadau eu hadolygiadau diweddar o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol;<br>• byddai ef hefyd yn ystyried adborth o ddolen y Bwrdd i ddatblygu'r Cynllun wrth ddatblygu'r naratif i'r ymgynghoriad ymhellach;<br>• roedd yr amcanion arfaethedig yn cynnwys yr amcanion cyfredol a oedd yn parhau i fod yn addas i'r diben, gydag un amcan newydd;<br>• mae tri cham gweithredu sylweddol ychwanegol wedi'u datblygu gyda chynnig ar gyfer eu monitro wedi'u targedu, gan geisio arweiniad ynghylch a ddylai’r rhain gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hefyd; a | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | • byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr i alluogi cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Bwrdd ei gymeradwyo yn gynnar yn 2026. | |
| 16.2 | Trafododd y Bwrdd:<br>• y tri cham gweithredu ychwanegol, gan gytuno bod y rhain yn werthfawr gan ddarparu ffocws clir;<br>• yr heriau o gyflawni gweithlu mwy amrywiol, y camau y gellid eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn ac a oedd yr amcan yn ein hymestyn yn ddigonol;<br>• sut y gellid cyflawni gwella ansawdd a chasglu data mewnol a'i ddefnyddio i lywio camau gweithredu a gwneud penderfyniadau;<br>• pwysigrwydd cydnabod y tensiynau a allai godi wrth geisio cyflawni yn erbyn amrywiaeth o uchelgeisiau ac ystyried yn ofalus sut i wneud cynnydd yn erbyn pob un, gan nodi y gallai fod angen arweiniad ar y meysydd ffocws allweddol;<br>• y gynulleidfa a'r gyfradd ymateb ddisgwyliedig ar gyfer yr ymgynghoriad, gan nodi bod ymgysylltu uniongyrchol â chyrff y glymblaid cydraddoldeb yn werthfawr wrth gynhyrchu ymatebion defnyddiol. | |
| 16.6 | Cymeradwyodd y Bwrdd a'r Archwilydd Cyffredinol yr ymgynghoriad allanol drafft ar yr amcanion a'r camau ychwanegol sydd wedi'u cynnig ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2026-30. | |
| **17** | **Cynllun Blynyddol 2026-27** | |
| 17.1 | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith bapur yn amlinellu strwythur, amserlen a meysydd ffocws arfaethedig y Cynllun Blynyddol drafft ar gyfer 2026-27. Eglurodd fod Y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2025-26 ac wedi amlinellu'r blaenoriaethau drafft arfaethedig ar gyfer 2026-27, a oedd yn cadw rhai o flaenoriaethau'r flwyddyn gyfredol naill ai'n llawn neu gyda newidiadau. Awgrymodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y dylid dileu rhai blaenoriaethau lle'r oedd cyflawni wedi'i gwblhau neu y gellid eu hisgyfeirio i fusnes fel arfer. | |
| 17.2 | Trafododd y Bwrdd ac awgrymodd y blaenoriaethau drafft i reolwyr eu hystyried o ran eu datblygu ymhellach, gan gynnwys:<br>• p'un ai i gadw'r ffocws ar werth am arian mewn gwaith perfformiad;<br>• p'un a ddylid cadw'r ffocws ar ymgysylltu â chyrff archwiliedig i ategu'r uchelgais i ysbrydoli, yn ogystal â datblygu perthynas effeithiol â'r Senedd ddiwygiedig a Llywodraeth Cymru newydd; a<br>• cynnwys cyfeiriad at gynaliadwyedd a bwriad i ddefnyddio'r amgylchedd technolegol sy'n datblygu lle bo hynny'n bosibl i ysgogi effeithlonrwydd ac ansawdd. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 17.3 | Esboniodd y Prif Weithredwr ei fod yn gam cynnar o ran datblygu'r blaenoriaethau drafft a diolchodd i'r Bwrdd am ei adborth. Atgoffodd y Bwrdd fod y Cynllun Blynyddol wedi datblygu i ddarparu nifer llai o flaenoriaethau y gallai'r sefydliad ganolbwyntio arnynt i wneud newid cadarnhaol yn y flwyddyn honno. | |
| 17.4 | Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith esbonio y byddai'r camau nesaf o ran datblygu'r cynllun yn cynnwys ystyried canlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid a fyddai'n cael ei ategu wrth ei gyhoeddi gan gyfathrebiadau rhagweithiol i annog ymgysylltu'n llawn. Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Blynyddol yn fyr ac y byddai cam nesaf y gwaith yn cynnwys adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r targedau cysylltiedig. | |
| 17.5 | Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r fframwaith a'r amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Blynyddol a nododd y byddai'n cael cyfle arall i ystyried y Cynllun Blynyddol drafft ym mis Chwefror cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2026. | |
| **18** | **Arolwg Staff** | |
| 18.1 | Darparodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Moderneiddio ac Effaith grynodeb o ganlyniadau'r arolwg staff, a oedd wedi'i anfon at aelodau cyn y cyfarfod. Esboniodd fod lefelau cymryd rhan yn uchel a'r canlyniadau cyffredinol yn gadarnhaol, gan ddangos lefel gref o ymgysylltu. Amlinellodd y canlyniadau yn fyr, gan dynnu sylw at sgoriau a ffactorau ymgysylltu a'r teimladau sy'n dod i'r amlwg o'r ymatebion naratif. Eglurodd y byddai'r camau nesaf yn cynnwys neges i bob aelod o staff gan yr Archwilydd Cyffredinol i ddathlu canlyniadau, ystyried y canlyniadau o fewn timau a dadansoddi'r canlyniadau manwl i nodi meysydd ffocws. | |
| 18.2 | Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r lefel uchel o ymgysylltu a'r sgoriau cadarnhaol a gwahoddodd y Prif Weithredwr i roi ei fyfyrio ar y canlyniadau. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn fodlon â'r canlyniadau cadarnhaol a ddangosodd welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd yn awyddus i ystyried y canlyniadau yn fanylach i ddeall unrhyw anghysondebau yn well, gan gynnwys y rhai rhwng gwahanol rannau o'r sefydliad, a sgoriau a meysydd llai cadarnhaol. Pwysleisiodd hefyd ei fod yn awyddus i'r sefydliad ddeall bod y canlyniadau'n adlewyrchu Archwilio Cymru yn ei gyfanrwydd gyda chyfrifoldeb ar y cyd am y camau nesaf. | |
| 18.3 | Esboniodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd fod yr adroddiad sylwadau yn cael ei adolygu ar gyfer golygu data personol neu sensitif cyn ei rannu â staff. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

| Eitem | Cofnodion | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 18.4 | Roedd y Bwrdd wrth ei fodd â'r negeseuon cadarnhaol o'r canlyniadau cynnar, gan gynnig ei longyfarchiadau i bawb a oedd wedi cyfrannu at gyflawni hyn, a nododd y diweddariad. | |
| **19** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 19.1 | Gwahoddodd y Cadeirydd adborth ar y cyfarfod, a nododd yr aelodau:<br>• Roedd y cyfarfod wedi teimlo'n gadarnhaol, wedi'i amseru'n dda ac a ffocws;<br>• gweithiodd y fformat Teams yn dda, er gallai wedi cynnwys mwy o seibiannau i ganiatáu amser i symud;<br>• Roedd y fformat undydd wedi gweithio'n dda ac roedd wedi helpu i reoli ymrwymiad amser; ac<br>• Roedd papurau wedi'u hysgrifennu'n dda ac â ffocws da wedi bod o gymorth. | |
| **20** | **Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:** | |
| 20.1 | Datblygu'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, 17 a 18 Rhagfyr 2025, Abertawe<br>Cyfarfod y Bwrdd, 05 Chwefror 2026, Cyffordd Llandudno | |